# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Jennifer Raynor | Adran Etholiadol: | Dyfnant |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Addysg (o 17 Medi 2014) |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais gymorthfeydd i holl breswylwyr Dyfnant ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis o 10am tan 11am yng Nghanolfan Gymdeithasol Dyfnant. Roeddwn ac rwy'n parhau i fod ar gael trwy e-bost – cllr.jennifer.raynor@swansea.gov.uk neu drwy ffonio 01792 207807.

Roedd y materion a godwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon yn cynnwys atgyweirio priffyrdd a phalmentydd, parcio canol y ddinas, gwarchod coed a choetir, parcio ar balmentydd gan orfodi cadeiriau gwthio i'r ffordd, parcio anystyriol yn y bore a'r prynhawn ar y ffyrdd o gwmpas y ddwy ysgol gynradd yn Nyfnant. Hefyd, cyfarfûm â swyddogion priffyrdd a diogelwch ffyrdd i ystyried gwella diogelwch mewn nifer o safleoedd yn Nyfnant.

Euthum i gyfarfodydd PACT ac roeddwn (ac rwyf o hyd) mewn cysylltiad rheolaidd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

Roeddwn (ac rwy'n parhau i fod) yn gynullydd yn Ysgol Gynradd Pen-y-Fro ac Ysgol Gyfun yr Olchfa.

Trwy fy Lwfans Amgylcheddol Cynghorwyr, ariannais blannu blodau gwyllt yn ardal Dyfnant.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 3 / 3 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 / 8 | 88% |
| Pwyllgor Archwilio | 2 / 3 | 67% |
| Y Cabinet | 10 / 11 | 91% |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 2 / 4 | 50% |
| Y Cyngor | 14 / 17 | 82% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 / 7 | 100% |
| Is-bwyllgor Hawliau Tramwy a Thir Comin | 5 / 5 | 100% |
| CYFFREDINOL | 50 / 58 | 86% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Gweithgor Craffu Gwasanaethau Cynllunio | 0 / 1 | 0% |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 2 / 3 | 67% |
| Panel Ymchwilio Craffu Gwasanaethau Plant sy'n Derbyn Gofal | 1 / 1 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Lles | 5 / 6 | 83% |
| CYFFREDINOL | 8 / 11 | 73% |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Cadeirydd y Pwyllgor Hawliau Tramwy (cyn cyflwyno'r Pwyllgor Cynllunio).
Is-gadeirydd y Fforwm Magu Plant Corfforaethol.
Aelod y Cabinet dros Addysg (o 17 Medi 2014)

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Cynrychiolais Arweinydd y Cyngor ar Gyd-bwyllgor “Ein Rhanbarth ar Waith” (ERW), y corff rhanbarthol sy'n gyfrifol am wella cyflwyniad addysg yn rhanbarth y de-orllewin.

Cadeiriais Grŵp Llywio Addysg o Safon (AoS) a oedd yn gyfrifol am y rhaglen adeiladu ysgolion, yr ariannwyd 50% ohoni gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r gwelliannau i Ysgol Gyfun Treforys wedi'u cwblhau.

Dechreuwyd ar Ysgol Gynradd newydd Tregŵyr ac agorwyd cyfleusterau chwaraeon gwell yn safle'r Elba nesaf at yr ysgol i'r cyhoedd eu defnyddio.

Mae cynlluniau ailadeiladu Ysgol Lôn-las wedi hen ddechrau.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

09/12/2014 - Difenwi
09/12/2014 - Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad
12/11/2014 - Recriwtio a Dethol
13/10/2014 - Diogelu
14/08/2014 - Manteisio i'r Eithaf ar Eich Tabled/Ffôn Clyfar
03/07/2014 - Hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**
*Mae'r adran hon er mwyn i chi nodi unrhyw beth arall rydych yn meddwl y dylai'ch etholwyr fod yn ymwybodol ohono.*

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (cyn 17 Medi 2014)
Cyflog Uwch: £32,000 (o 17 Medi 2014)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 05.06.15 |